PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Y SENEDD

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.15 ar 9 Hydref 2024, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.**

Aelodau â phleidlais: Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Otar Akanyeti; Mr Tom Bates; Dr Hanna Binks; Yr Athro Hazel Davey; Dr Sarah Davies; Yr Athro Iain Donnison; Dr Patrick Finney, Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Mr Jonathan Fry, Cadeirydd Cangen PA o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); Yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Aloysius Igboekwu; Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr); Dr Ffion Jones; Dr Alex Mangold; Dr Julie Mathias; Mr Will Parker, Swyddog Materion Academaidd Undeb Aberystwyth; Ms Jen Phipps; Dr Alexander Pitchford; Dr Samuel Raybone; Yr Athro Phillipp Schofield; Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Dr Alistair Shepherd; Dr Lucy Trotter; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb Aberystwyth; Yr Athro Reyer Zwiggelaar Pennaeth Ysgol y Graddedigion;

Aelodau heb bleidlais: Yr Athro Iain Barber; Yr Athro Nigel Copner; Mr Prysor Davies; Dr Thomas Jansen; Dr Gwion Evans; Dr Olaoluwa Olusanya; Yr Athro Huw Morgan; Yr Athro Charles Musselwhite; Yr Athro Helen Roberts, Cyfarwyddwr Rhagoriaeth ac Effaith Ymchwil. Dr Steve Thompson;

Yn gweinyddu: Mrs Kim Bradick Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd); Ms Michelle Dickson, Cofrestrydd Academaidd; Mr Tim Davies, Pennaeth Gwasanaethau Gwybodaeth; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Ian Munton, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Fyfyrwyr; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol;

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb i law oddi wrth Yr Athro Andy Evans, Miss Elain Gwynedd, Llywydd UMCA, Yr Athro Mererid Hopwood, Dr Kim Knowles, Yr Athro Louise Marshall, Ms Jackie Sayce, Dr Anoush Simon, Yr Athro Catrin Webster.

---

## 1. CROESO

Croesawyd y canlynol yn Bennaeth Adran heb bleidlais: Mr Prysor Davies, Pennaeth Dros Dro, Yr Adran Addysg; Dr Gwion Evans, Pennaeth Dros Dro, Yr Adran Fathemateg; Yr Athro Huw Morgan, Pennaeth Dros Dro, Yr Adran Ffiseg; Yr Athro Charles Musselwhite, Pennaeth Seicoleg; Dr Olaoluwa Olusanya, Pennaeth Dros Dro, Y Gyfraith a Throseddeg. Nodwyd Dr Alistair Shepherd (sydd eisoes yn aelod o'r Senedd â phleidlais) yn Bennaeth

Dros Dro, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol; nodwyd bod Ms Michelle Dickson, Cofrestrydd Academaidd a Mrs Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (Ysgrifennydd), yn eu cyfarfod cyntaf o'r Senedd.

Nodwyd bod cynrychiolwyr canlynol y Senedd wedi'u hethol i eistedd ar y Cyngor: Dr Sarah Davies a Dr Aloysius Igboekwu.

**2. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**3. COFNODION CYFARFODYDD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2024 (SEN2425-003).

PENDERFYNWYD

1. Cywiro'r cofnodion i gofnodi'r Athro Andy Evans yn aelod â phleidlais a'r Athro Helen Roberts yn aelod heb bleidlais.

2. Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**4. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN2425-004).

NODWYD

Bod y newidiadau i'r Drws Trugaredd 2% wedi eu cyflwyno ar gyfer y myfyrwyr sy'n dechrau yn 2024/25 yn hytrach nag ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau Rhan Dau yn 2024/25, fel y cynigiwyd yn wreiddiol.

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y newid i'r Drws Trugaredd 2% ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau yn 2024/25 yn cael ei gymeradwyo.

**5. GOHEBIAETH**

NODWYD

Gohebiaeth gan yr Adran Fathemateg ynglŷn ag amserlennu.

PENDERFYNWYD

Cyfeirio'r ohebiaeth ynglŷn ag amserlennu at y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) a'r Cofrestrydd Academaidd i'w hystyried ymhellach ac i drafod gyda'r adran ac adrodd yn ôl i'r Senedd. [**Gweithredu:** Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) a'r Cofrestrydd Academaidd]

## 6. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad yr Is-Ganghellor (SEN2425-005)

NODWYD

1. Roedd dwy ran i'r adroddiad: adroddiad ar y prif bwyntiau a diweddariad ar Ddenu Myfyrwyr a Chynllunio.

2. Y newid i'r tirwedd wleidyddol a'r sgyrsiau ynghylch ffioedd dysgu. Roedd Medr bellach yn gwbl weithredol a'u strategaeth mewn ymgynghoriad â'r sector.

3. Diolch i'r holl gydweithwyr a gymerodd ran yn y cyfnod clirio a'r wythnos groeso; dros y misoedd nesaf byddai staff a myfyrwyr yn cael eu gwahodd i gloriannu'r broses gynefino a'r gweithgareddau croesawu sydd wedi'u diwygio'n sylweddol.

4. Diweddariad Dysgu ac Addysgu

5. Uchafbwyntiau ymchwil yn cynnwys cyhoeddi dau bapur clawr yn olynol yn y cyfnodolyn Nature gan yr Athro Nick Pearce a'r Athro Richard Bevins a chan yr Athro Andrew Thomas.

6. Anogwyd aelodau'r Senedd i gymryd rhan yn y gwaith trawsnewid; byddai'r Strategaeth yn cael ei thrafod yn y Cyngor yn ddiweddarach yn yr wythnos.

## 7. Y BWRDD ACADEMAIDD

### 7.1 Adroddiad o'r Bwrdd Academaidd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd (SEN2425-006).

NODWYD

1. Byddai cyfle i drafod y Strategaeth Dysgu ac Addysgu mewn gweithdy yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

2. Lansiwyd y fersiwn ddiweddaraf o God Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA) ym mis Mehefin; dyma fyddai'r fframwaith a ddefnyddir i adolygu PA yn yr arolwg gwella ansawdd nesaf yn 2027/28. Roedd 12 Egwyddor gydag Arferion Allweddol cysylltiedig wedi'u rhannu'n dair thema.

3. Roedd y Brifysgol wedi ymateb yn ffurfiol i adroddiad blynyddol y myfyrwyr a byddai'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) yn parhau i weithio'n

agos gyda swyddogion sabothol 2024/25 gan fwrw ymlaen â'r materion a amlinellir yn yr adroddiad.

4. Roedd trefniadau ailsefyll y cynlluniau Nyrsio wedi'u haddasu i gyd-fynd â chynlluniau eraill ac ychwanegwyd dyfarniad ymadael BSc Astudiaethau Gofal Iechyd.

5. Cytunwyd ar derfynau amser sefydlog i fyfyrwyr ofyn am gyfieithu papurau arholiad ac asesu yn y Gymraeg ar fodiwlau cyfrwng Saesneg sef 1 Tachwedd ar gyfer arholiadau Semester Un ac 1 Mawrth ar gyfer arholiadau Semester Dau.

6. Roedd y cynnig i gyflwyno polisi Addasrwydd i Sefyll Arholiadau wedi'i roi o'r neilltu oherwydd heriau ymarferol yn ymwneud â rhai mathau o asesu ac arholiadau ailsefyll yr haf a phryderon am berfformiad myfyrwyr, y llwyth gwaith marcio a datblygu systemau.

7. Roedd gwaith wedi'i wneud i symleiddio prosesau presennol Amgylchiadau Arbennig ac estyniadau a fyddai'n cael eu cyflwyno yn ystod yr hydref. Byddai ceisiadau yn cael eu cyflwyno drwy'r cofnod myfyriwr, gan gynnwys cyflwyno tystiolaeth ategol lle bo hwn ar gael. Byddai llifoedd gwaith awtomataidd yn helpu i reoli niferoedd mawr o wybodaeth sensitif ac yn hwyluso proses gyflymach o wneud penderfyniadau, mwy o gysondeb, ac ymatebion awtomataidd yn ôl i fyfyrwyr.

8. Roedd proses yr Adolygiad Terfynol wedi'i diwygio i gynnwys proses gyflymach i fyfyrwyr gyflwyno ceisiadau am Adolygiad Terfynol yn erbyn gwaharddiadau Cymorth i Astudio a'r Swyddfa Gyllid ar sail dyled heb ei thalu, lle roedd angen hwylustod.

**7.2 Strategaeth Dysgu ac Addysgu**

DERBYNIWYD

Drafft Terfynol Strategaeth Dysgu ac Addysgu Mehefin 2024 (SEN2425-007)

NODWYD

1. Yng nghyd-destun y newid cyflym yn nhirwedd AU a phrosiect trawsnewid PA ei hun, arweiniodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) weithdy yn gwahodd aelodau'r Senedd i edrych eto ar y Strategaeth Dysgu ac Addysgu, wedi i'r drafft gael ei gyflwyno'n wreiddiol i'r aelodau yn gynharach yn y flwyddyn.

2. Gofynnwyd i aelodau'r Senedd ystyried tri chwestiwn: 1) a ddylid symud ymlaen gyda'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu neu addasu'r pwyslais gan newid i gynllun Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr; 2) a oedd yr ffrydiau yn dal yn briodol a 3) a oedd y ffrydiau yn nodi'r agweddau cywir i sicrhau llwyddiant.

3. Rhoddwyd cyfle i gydweithwyr drafod pob un o'r cwestiynau mewn grwpiau bach ac adrodd yn ôl i'r Senedd gyfan. Cymerwyd cofnod o'r adborth i helpu'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) i fireinio'r strategaeth a fyddai'n cael ei rhoi gerbron y Senedd yn y gwanwyn. Yn gryno, gwnaed y pwyntiau canlynol:

i. Croesawyd yr awgrym i symud i gynllun Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr; roedd hwn yn gyfle i gynnwys mwy na chylch gwaith culach y Strategaeth Dysgu ac Addysgu, i gysylltu'n uniongyrchol ag Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr a'r agenda cynwysoldeb, ac roedd awydd cryf i feithrin partneriaethau gyda myfyrwyr a gweithio gyda myfyrwyr i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar raddedigion yn y dyfodol. Nodwyd y gallai newid pwyslais effeithio ar swyddogaeth y Cyfarwyddwyr Dysgu ac Addysgu.

ii. O ran y ffrydiau a nodwyd eisoes, croesawyd y ffrwd *Llais y Myfyrwyr a Phartneriaeth*. Awgrymwyd y gellid ehangu'r ffrwd *Cyfnod Cynefino i Fyfyrwyr a Phontio* i gynnwys dinasyddiaeth, dylid ystyried cadw myfyrwyr yn ganlyniad, ac efallai bod *Taith y Myfyriwr* yn deitl mwy priodol. Yng nghyd-destun y ffrwd *Dysgu Gweithredol ac Effeithiol,* teimlwyd fod PA fel sefydliad ymhellach ymlaen ar y daith hon nag sy'n cael ei gyfleu gan y ffrwd ar hyn o bryd. Dylai'r ffrwd *Gwella Portffolio Sgiliau Cyfoes* hefyd gynnwys cyfeiriad at ddiwydiant ac efallai y gellid amsugno *Rhesymoli asesiadau a DA* i un o'r ffrydiau eraill, ond yn sicr, dylai'r cyfeiriad at asesu gynnwys y syniad o harneisio grym technoleg gyfoes, nid DA yn unig. Awgrymwyd y gellid ystyried ychwanegu ffrwd sy'n ymwneud ag addysg a arweinir gan ymchwil, yn enwedig mewn modiwlau yn y drydedd flwyddyn, a hefyd nid oedd natur ddwyieithog PA yn amlwg.

iii. O ran sicrhau llwyddiant, awgrymwyd yn yr adborth y gallai camau gweithredu'r ffrydiau fod yn fwy craff a mwy manwl, megis mapio taith y myfyriwr yn fwy effeithiol, cyfeirio at iechyd meddwl, systemau cymorth, y drefn o diwtoriaid personol a'r cymorth i fyfyrwyr rhyngwladol. Dyma strategaeth hirdymor sy'n galw am fod yn uchelgeisiol felly dylai'r camau gweithredu fod yn gyffrous â chysylltiadau clir rhwng y ffrydiau.

iv. Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i fframio'r strategaeth o fewn cyd-destun safbwynt y myfyriwr. Dylai fod yn glir am ei gynulleidfa darged, dylai ddylanwadu ar y profiad dysgu, dylai rymuso myfyrwyr a chrynhoi'r hyn sy'n gwneud graddedigion PA yn wahanol, yn ogystal â chyfeirio at genhadaeth ddinesig a chymuned PA yn ei chyfanrwydd, ac yn olaf, dylai'r iaith a ddefnyddir fod yn gryno ac yn hygyrch.

v. Diolchodd yr Is-Ganghellor i aelodau'r Senedd am ymgymryd yn gadarnhaol iawn â dull y gweithdy o ymdrin â'r drafodaeth a dywedodd y byddai'n hoffi defnyddio'r fformat eto, pan fo'n briodol, i annog trafodaeth weithredol ac adeiladol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

Byddai'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) yn ystyried yr adborth a ddaeth o'r trafodaethau ac yn cyflwyno strategaeth wedi'i hadnewyddu i gyfarfod yn y gwanwyn. [**Gweithredu:** Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr)

**7.3 Pwyllgorau Academaidd Medi 2024**

DERBYNIWYD

Pwyllgorau Academaidd Medi 2024 (SEN2425-008)

NODWYD

1. Yn dilyn cyhoeddi fersiwn newydd o God Ansawdd y DU gan ASA, roedd gwaith y Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau wedi cael ei adolygu; roedd hyn hefyd yn porthi'r gwaith trawsnewid parhaus sy'n edrych ar y strwythurau llywodraethu yn gyffredinol.

2. Cynigiwyd y dylai'r Bwrdd Academaidd gael ei ddisodli gan B*wyllgor Ansawdd a Safonau*, a fyddai'n goruchwylio'r agenda sicrhau ansawdd academaidd, a *Phwyllgor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr*, a fyddai'n goruchwylio agenda gwella a phrofiad y myfyrwyr yn ehangach; byddai'r ddau yn gwasanaethu fel is-bwyllgorau newydd y Senedd. Roedd *Y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg* wedi cael ei ddyrchafu i fod yn is-bwyllgor y Senedd. Byddai'r *Bwrdd Marchnata, Denu a Derbyn Myfyrwyr* a *Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol* o hyd yn gweithredu fel ag y maent ar hyn o bryd er y gellid adolygu eu henwau.

3. Byddai'r gwaith a wnaed yn flaenorol gan is-bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd, sef Pwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau, Pwyllgor Profiad y Myfyrwyr, Pwyllgor Gwella Academaidd, Pwyllgor Cynllunio Portffolio a Phwyllgor Graddau Ymchwil yn cael ei ailddosbarthu. Yn achos y Pwyllgor Graddau Ymchwil byddai rhai agweddau o'i waith yn cael eu trafod yn y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi a byddai adroddiadau eraill yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau.

4. Byddai'r achos busnes ar gyfer cynigion am gynlluniau newydd yn dod drwy'r broses gynllunio, trwy law Dirprwy Is-Gangellorion y Cyfadrannau a Phwyllgorau Gweithredol y Gyfadran i sicrhau bod y portffolio'n cael ei ystyried yn gyfannol. Byddai'r Panel Cymeradwyo Cynlluniau presennol yn cael ei ailenwi yn Banel Craffu Academaidd. Byddai hwn yn gyfrifol am graffu o safbwynt *academaidd* ar gynlluniau newydd ac ar newidiadau i gynlluniau. Cyn hyn Pwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau oedd yn edrych ar newidiadau i gynlluniau. Byddai'n cael ei gynnull fel panel sefydlog o'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau gydag aelodau'r panel yn dod o gronfa a enwebwyd gan adrannau ar draws y cyfadrannau. Byddai'r Panel Craffu Academaidd yn canolbwyntio ar agweddau academaidd wrth gymeradwyo cynlluniau, a thrwy drefnu cyfarfodydd yn rheolaidd, y gobaith oedd y byddai hyn yn helpu i symleiddio a chyflymu'r broses o wneud penderfyniadau.

5. Byddai Drafft y Cylch Gorchwyl yn cael ei gyflwyno i gyfarfodydd cyntaf pob pwyllgor a byddai cynigion terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Senedd i'w hadolygu.

6. Dywedodd aelodau'r Senedd fod pwyllgorau'n aml yn cael eu defnyddio i ledaenu gwybodaeth ac i glywed lleisiau'r adrannau. Roedd yn bwysig nad oedd sianeli cyfathrebu yn mynd ar goll wrth fynd ati i resymoli pwyllgorau academaidd a bod aelodau'r pwyllgor yn deall eu swyddogaethau ac yn rhagweithiol wrth ledaenu gwybodaeth lle'r oedd hyn yn briodol.

PENDERFYNWYD

Croesawu'r cynigion mewn egwyddor. Byddai'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) a'r Dirprwy Gofrestrydd (sef Ysgrifennydd y Senedd) yn dod â drafft y Cylchoedd Gorchwyl ar gyfer y pwyllgorau academaidd sy'n adrodd i'r Senedd a'u cyflwyno i'w hystyried ar ôl iddynt gael eu trafod gan eu pwyllgorau perthnasol.
[**Gweithredu:** Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) ac Ysgrifennydd y Senedd]

8. **CANGEN PRIFYSGOL ABERYSTWYTH Y COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Jonathan Fry, Cadeirydd y Gangen (SEN2425-009)

9. **YMATEB I GYFLWYNIAD BLYNYDDOL UM ABER**

DERBYNIWYD

Ymateb i Gyflwyniad Blynyddol UM Aber (SEN2425-010)

10. **GWOBRAU ACADEMAIDD**

DERBYNIWYD

Gwobrau Academaidd a ddyfarnwyd yn ystod 2022-23 a 2023-24 (SEN2425-011)

11. **ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD: Cofnodion o'r pwyllgorau canlynol (SEN2425-012):

1. Y Bwrdd Academaidd (5 Mehefin 2024)
2. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (4 Mawrth 2024)

12. **UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

NODWYD

Bydd y cyfarfod ffurfiol nesaf ar 13 Tachwedd 2024.

krb 2024/10/09